

Bwletin Llythrennedd a Rhifedd

Croeso i Fwletin Llythrennedd a Rhifedd GWE! Rydym yn gwybod pa mor brysur yw athrawon dosbarth, felly, rydym wedi mynd trwy'r swmp o wybodaeth ac adnoddau sydd ar gael am y blaenoriaethau cenedlaethol hyn â chrib fân er mwyn gwneud bywyd yn haws! Hyderwn y bydd yn ddefnyddiol i chi a byddem yn croesawu unrhyw adborth fel y gallwn deilwra bwletinau'r dyfodol i fodloni eich anghenion.

Adnoddau-Beth sydd ar gael ar y lein?

Llythrennedd

Hwb

Ysgol Gynradd Cornist Park, Sir y Fflint, yn rhannu eu llwyddiant gyda Minecraft.

Darllenwch sut maent yn defnyddio **Minecraft** i ddatblygu llythrennedd a rhifedd.

<http://hwb.wales.gov.uk/Resources/resource/33da9a08-f7f4-4fac-b701-f30358ab84e1/cy>



Mae Dr Richard Watkins wedi diweddarau cynlluniau gwaith gwyddoniaeth CA2 yn sgil diweddariad deilliannau llythrennedd a rhifedd.

<http://www.gwegogledd.cymru/cy/canolfan-wybodaeth/adnoddau/gwyddoniaeth>



Darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog ar draws Cymru Adolygiad i nodi'r ddarpariaeth a gynigir i Ddisgyblion Mwy Galluog a Thalentog (MAT) yng Nghymru ar hyn o bryd.

<http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/wagreview/mat-across-wales/?skip=1&lang=cy>



Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2016

Mae'n cynnwys crynodeb o bob un o lawlyfrau'r profion a chanllawiau ar y trefniadau mynediad a datgymhwysu.

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/national-reading-and-numeracy-tests-administration-handbook/?skip=1&lang=cy>

Pecyn Cymorth ar gyfer Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol 2016

Gwnaed newidiadau i'r ffordd y darperir cymorth ariannol ar gyfer gweinyddu'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol.

<http://learning.gov.wales/news/sitenews/national-reading-and-numeracy-tests-support-package-for-schools-2016/?skip=1&lang=cy>

Rhaglen Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol – cynllun gweithredu strategol

Mae'r cynllun yn amlinellu'r camau y byddwn yn cymryd i godi safonau llythrennedd a rhifedd. Cafodd y Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd gwreiddiol eu cyhoeddi yn 2012. Fe'u cyflwynir nawr fel un ddogfen sy'n adlewyrchu ein dull cydgysylltiedig i ddatblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/national-literacy-and-numeracy-programme/?skip=1&lang=cy>

Arfer Dda



Mabwysiadu dulliau amryfal o wella llythrennedd a rhifedd mewn ysgol uwchradd

Mae staff yn Ysgol Bryn Elian wedi gwella medrau darllen a rhifedd disgyblion, drwy adolygu cwricwlwm yr ysgol, cynnal prosiectau ymyrraeth llythrennedd ac ymestyn yr amser sy'n cael ei dreulio yn addysgu Saesneg a Mathemateg.

<http://www.estyn.llyw.cymru/arfer-orau/mabwysiadu-dulliau-amryfal-o-wella-llythrennedd-rhifedd-mewn-ysgol-uwchradd>



Mae medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm yn cael eu gwella drwy gydweithio ag ysgol gynradd arall.

Trwy osod heriau dysgu i'w gilydd, mae disgyblion yn Ysgol Dyffryn y Glowyr ac ysgol bartner wedi datblygu eu hysgrifennu creadigol i safon uchel, wedi gwella eu medrau trafod ac wedi ennyn mwy o frwdfrydedd ar gyfer mathemateg.

<http://www.estyn.llyw.cymru/arfer-orau/mae-medrau-disgyblion-ar-draws-y-cwricwlwm-yn-cael-eu-gwella-trwy-gydweithio-ag-ysgol>

Rhaglen Ysgolion Gŵyl Y Gelli

Mae'r Wyl yn gyfle ffantastig i annog a chyffroi dysgwyr o Gyfnodau Allweddol 2, 3 a 4. Mae awduron, gwyddonwyr a haneswyr nodedig wedi cael eu gwahodd i gyfarfod a dysgwyr a rhannu eu gwybodaeth.

Ar 26 a 27 Mai bydd Yr Wyl yn croesawu miloedd o ddysgwyr. Bydd nifer o weithgareddau a hefyd siop lyfrau ardderchog lle gall ddysgwyr pori a phrynu fel y mynnent. Bydd llyfrau'r oll awduron sydd yn mynychu'r digwyddiad ar werth. Archebwch le drwy gysylltu a; Nessie@hayfestival.org